# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
## a gynhalwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen
### Nos Fawrth 8fed o Ionawr, 2019 am 7:00y.h.



Cadeirydd: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol:** | | | Cynghorwyr - Sara Williams (SW), Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), William Jones (WJ), Olwen Roberts (OR),<br>a'r Cyng. Aled Jones (AJ). |
| **1.** | | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Gan fod GJ yn absennol heno oherwydd salwch trefnwyd o flaen llaw y bydd SW yn cadeirio am y tro, gan nad oedd hithau chwaith yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod penderfynwyd y bydd LJ yn cychwyn yn y cyfamser.<br>Croesawodd LJ pawb i'r cyfarfod. |
| **2.** | | | **Ymddiheuriadau**<br>Ynyr Ellis (YE), Emlyn Hughes (EH), Griffith Jones (GJ) |
| **3.** | | | **Datgan Diddordeb**<br>GW yng nghyd-destun eitem 7 |
| **4.** | | | **Diweddariadau asedau**<br>Dim mater yn codi |
| **5.** | | | **Cofnodion** |
| | ***5.1*** | | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Roedd cais gan SP i gywiro pwynt 6 o Gofnodion yr 11eg o Ragfyr, 2018 sef Canolfan Llithfaen.<br>**Y cywirdeb** - Bydd telerau parcio'r ganolfan yn rhedeg fel y rhai gweithredol sef £30 y flwyddyn y car gydag amod i Dŷ'r ysgol yn unig i barcio dau gar am £35 y flwyddyn.<br><br>Roedd hefyd cais gan LJ i gywiro pwynt 12.1 sef Llofnodwyr a chyfeiriad y gyfriflen banc.<br>**Y cywirdeb** - Gofynnwyd yn garedig i sicrhau presenoldeb o leiaf dau o'r tri llofnodwr mewn cyfarfodydd sef JO, GW, ac OR<br><br>**Cyrhaeddodd SW ac aeth ymlaen i gadeirio am y noson.**<br><br>Cynigiodd LJ fod gweddill Cofnodion yr 11eg o Ragfyr yn gywir, eiliodd JO ac fe'u mabwysiadwyd. |
| | ***5.2*** | | **Materion yn codi** |
| | | **5.2.1** | **Wal y ffordd i Nant Gwrtheyrn**<br>Nid oedd SP wedi llwyddo trefnu cyfarfod pellach i drafod y wal fregus hyd yn hyn.<br>*Y Clerc i drefnu cyfarfod erbyn wythnos gyntaf mis Chwefror gyda SP, AJ, Mair Saunders, Bleddyn Jones a William Owen.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 5.2.2 | **Mynwent Pistyll**<br>Oherwydd diffygion cyfrifiadurol, methodd y Clerc gysylltu â'r Parch Richard Wood. Yn y cyfamser derbyniwyd LJ cadarnhad fod Natural Retreats a'r Eglwys mewn cyswllt i ymwneud ac atgyweirio wal y fynwent ers mis Medi.<br>*Penderfynwyd nid oedd angen camau pellach ar ran y Cyngor.* |
| | | 5.2.3 | **Cerrig Milltir Blwyf Pistyll**<br>*Y Clerc i atgoffa'r Cyngor eto erbyn mis Mawrth i fynd ati i ddarganfod y cerrig yn eu hunion sefyllfa.* |
| | | 5.2.4 | **Goryrru trwy Lithfaen**<br>Rhannwyd y Clerc pryderon y Cyngor i ymwneud a chanlyniadau'r beic 'GO Safe' gyda Dylan Wyn Jones, Rheolwr Uned Traffig Cyngor Gwynedd a hefyd ymestyn gwahoddiad iddo i'r cyfarfod heno ond yn anffodus nid oedd yn gallu mynychu tan gyfarfod mis Chwefror; awgrymodd Dylan yn gryf eto i ymestyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r heddlu hefyd i'r cyfarfod nesaf.<br>*Y Clerc i weithredu gan bwysleisio pwysigrwydd a siom y Cyngor Cymuned i'r heddlu o fethu cael cynrychiolydd hyd yn hyn.* |
| | | 5.2.5 | **Llwyni Peryglus**<br>Ni dderbyniwyd diweddariad pellach gan y Cyngor Sir hyd yn hyn. |
| | | 5.2.6 | **Dwr a difrod i'r lonydd lleol**<br>Adroddodd LJ fod y Cyngor Sir wedi cwblhau'r gwaith i arbed y dŵr heibio Capel Tabor ar ôl cwyn ychwanegol gan ei gwr.<br>Adroddodd WJ bod y difrod i'r ffordd o Bistyll i Bentre' Uchaf wedi ei farcio gyda chonau traffig ond hyd yn hyn heb ei atgyweirio. Gan fod y mater yn nwylo'r Cyngor Sir nid oedd sylwadau pellach ar hyn o bryd. |
| | | 5.2.7 | **Canolfan Llithfaen**<br>Gweler pwynt 5.1 |
| | | 5.2.8 | **Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn**<br>Gohiriwyd cyfarfod y Cynghorwyr ar y safle oherwydd diffyg presenoldeb.<br>Cyflwynodd SP fapiau a lluniau ychwanegol yn cadarnhau mae cornel yn unig o'r maes parcio sydd yn dir comin.<br>Er mwyn cael troedle cadarn i wneud penderfyniadau am y safle trefnwyd SP i dderbyn cadarnhad o ofynion a hawliau perchnogion y tir erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.<br>*Trefnwyd cyfarfod ar y safle am 10 o'r gloch dydd Sadwrn y 12fed o Ionawr.* |
| 6. | | | **Penderfynu Praesept**<br>Adolygwyd rhagamcanion 2018/19. Wedi ystyried ymrwymiadau costau arfaethedig cynigiodd SP i'r Cyngor godi'r Praesept o £8500.00 i £10,000 am y cyfnod 2019/20. Eiliodd OR a chytunodd pawb.<br>*Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.* |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7.** | | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>**Cais Rhif: C18/1080/43/LL**<br>Diwygio amod 6 ar ganiatâd C15/0495/43/LL er meddiannu'r carafanau sefydlog am 12 mis.<br>Parc Carafanau a Chwrs Golff Gwynys, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd.<br><br>Cynigiodd LJ ac eiliodd WJ a chytunodd pawb nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.<br>*Y Clerc i hysbysu'r Adran Cynllunio, Cyngor Sir.* |
| **8.** | | | **Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw**<br>Dim |
| **9.** | | | **Gohebiaeth** |
| | ***9.1*** | | **Ymateb gan Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Eiddo, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad i ymwneud a datblygiad Plas Pistyll**<br>Bydd trafodaeth hir ar y mater a llawer o bwyntiau fydd angen eu harchwilio yn fanwl.<br>*Penderfynwyd trafod y mater eto yn cyfarfod mis Chwefror yn dilyn Cyfarfod Craffu Cymunedau'r Cyngor Sir.* |
| | ***9.2*** | | **Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio · Tai Fforddiadwy · Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy· Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw, nid oedd sylwadau pellach. |
| | ***9.3*** | | **Ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd**<br>Esboniodd AJ bod mwy o bwyslais yn y cynllun i gefnogi anghenion pobol leol ond oherwydd Deddf Gwlad mae rhaid ymateb i ofynion mewnfudwyr sydd mewn angen.<br>Penderfynwyd gyrru ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor sef:<br>1. Sicrhau bod pobl leol yn cael blaenoriaeth wrth ddyrannu tai cymdeithasol<br>2. Ail sefydlu trafodaeth a grym i'r aelod lleol wrth benodi tai<br>3. Sicrhau bod nifer y tai cymdeithasol yn cyd-fynd a'r galw gan ymgeiswyr lleol.<br>*Y Clerc i weithredu.* |
| | ***9.4*** | | **Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd**<br>Derbyniwyd cais gan Ieuan Wyn, Ysgrifennydd Cylch yr Iaith, am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i alw ar Gyngor Gwynedd i roi heibio'r bwriad i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith.<br>Cynigiodd SP ac eiliodd LJ gefnogi'r cais, cynigwyd hefyd i gefnogi'r llythyr gan Gylch yr Iaith i Gyngor Gwynedd sydd hefyd yn gwrthwynebu'r newidiadau, cytunwyd pawb.<br><br>*Y Clerc i weithredu* |
| | ***9.5*** | | **Cais am rodd gan Lyfrgell Nefyn**<br>Cynigiodd LJ i gyfogi'r cais, penderfynwyd ei drafod eto mis Mawrth. |
| | ***9.6*** | | **Sesiwn hyfforddiant un llais Cymru**<br>Cytunwyd i'r Clerc fynychu hyfforddiant Unllais ar Ddeall y Gyfraith yn Llangefni. |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **10.** | | | **Gwybodaeth** |
| | *10.1* | | **Camau nesaf Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei ddull polisi ar gyfer y sector cymuned a chynghorau tref.**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw – ni fydd sylwadau pellach. |
| | *10.2* | | **Adroddiad diweddaraf gan Unllais Cymru ar y Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw – ni fydd sylwadau pellach. |
| | *10.3* | | **Dyfarniad cyflog cenedlaethol Clercod 2019-2020 gan NALC**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw – ni fydd sylwadau pellach. |
| **11.** | | | **Cyllid** |
| | *11.1* | | Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf<br><br>**Cyfredol**<br>**Taliadau:**<br>Cyflog y Clerc - £160.00<br>Treuliau gweinyddu – £19.91<br>**Balans - £8,195.47**<br><br>**Cadw:**<br>**Balans - £2,145.58** |
| | *11.2* | | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>Cyflog Clerc - £160.00<br>Treuliau gweinyddu - £20.03 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12fed o Chwefror am 7:00 y.h.**

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*